# 2020: Blwyddyn Awyr Agored Cymru.



03 Croeso i Flwyddyn Awyr Agored 2020.
04 Pam 'Awyr Agored?'
06 Gweithgarwch drwy gydol y flwyddyn — gallwch deimlo'n dda mewn unrhyw dymor.
10 Yr awyr agored yn y nos.
18 Mwynhau'r awyr agored — defnyddio'r awyr agored i greu naws am le.
22 Galluogi hygyrchedd yn yr awyr agored.
26 Bod yn rhan o'r gymuned a grwpiau awyr agored.
30 Cerdded yn yr awyr agored.
36 Twristiaeth gyfrifol.
42 Ein cydbreswylwyr — bywyd gwyllt Cymru.
48 Neges Croeso Cymru — 'Dewch i mewn'
52 Cyfryngau cymdeithasol — hyrwyddo eich neges i'r eithaf ar-lein.
56 Dewch i mewn a chadwch mewn cysylltiad.

Llun y clawr: Harlech, Gwynedd



# 2020 yw ein gwahoddiad i ymwelwyr a thrigolion Cymru i ddathlu'r gorau o'r awyr agored. Rydyn ni'n gofyn i bobl ddod i aros yn ein gwestai; ein gwersyllfeydd a'n bythynnod. Yna i agor eu drysau a darganfod atyniadau, gweithgareddau, tirweddau ac arfordiroedd nad ydynt wedi'u profi eto. Rydym yn annog ymweliadau â gwahanol gorneli o'r wlad drwy gydol y flwyddyn, gan y gallwch deimlo'n dda mewn unrhyw dymor.

Bydd Blwyddyn Awyr Agored 2020 yn atgyfnerthu ac yn rhedeg yn naturiol o'n 4 thema hyd yn hyn (Antur, Chwedlau, Môr, Darganfod) gan ddarparu parhad i'r diwydiant, ond digon o newid i ysbrydoli'r farchnad a'r cyfryngau. Mae gennym eisoes rywfaint o fantais gystadleuol fel lle gwych ar gyfer antur, gweithgareddau awyr agored a golygfeydd — ac mae gennym y potensial i amlygu'n hunain ymhellach: gan ystyried gwella ansawdd ein hamgylchedd; ein hethos o fyw'n gynaliadwy; a'r defnydd creadigol ond gofalus a wnawn o'n hamgylchedd naturiol.

Mae profiadau awyr agored wedi bod wrth wraidd teithio byd-eang erioed. Heddiw, mwy nag erioed o'r blaen, rydym yn datblygu ymwybyddiaeth o'r cysylltiadau rhwng ein profiad o deithio, y dirwedd a'n naws am le. P'un ai ydym ni'n meddwl am ddylunio mewnol, iechyd a lles neu fwyd, rydyn ni'n 'mwynhau'r awyr agored'. Wrth wneud hynny, rydyn ni'n ennill dealltwriaeth well o'n lles meddyliol a chorfforol, ac o fanteision cysylltiad cryf â natur a'r awyr agored.

Yng Nghymru, bu perthynas gynhenid erioed rhwng pobl a'r awyr agored. Nid yn unig mae'n tirweddau yn ysbrydoledig; maent wedi'u trwytho yn hanes byw iaith a diwylliant hynafol. Mae'r emosiynau cynhyrfus a gaiff eu hysgogi gan awyr agored Cymru wedi ysbrydoli ein beirdd, ein llenorion a'n hartistiaid ers canrifoedd.

**Yn 2020, byddwn yn dathlu Cymru — y gorau o'r awyr agored.**




Traeth Aberporth, Aberteifi

Nid dim ond ar gyfer yr haf y mae’r awyr agored. Dyma rai syniadau ar sut y gallwch weithio gyda’r awyr agored, beth bynnag fo’r tymor. Rydym wedi rhoi rhai enghreifftiau mwy penodol mewn llythrennau italig i helpu i egluro’r syniadau.

# Gweithgarwch drwy gydol y flwyddyn.

Gallwch deimlo’n dda mewn unrhyw dymor.



Ynys Môn

## Gweithgareddau ac antur.

Croesawch yr hyn y mae’r tymhorau’n ei daflu atoch; dim ond newid eich lleoliad neu’ch cyfarpar sydd rhaid.
*Mae ysgol syrffio yn cynnig siwtiau gwlyb sy’n addas i’r tymor, cyngor ar y mannau cyfagos gorau i ddal tonnau’n ddiogel ac ardal newid y gellir ei hoeri gyda ffaniau neu ei chynhesu â gwresogyddion.*

*Mae golffwyr yn chwarae boed law neu hindda ac mae gan Gymru rai o’r cyrsiau gorau yn y byd, ar agor trwy gydol y flwyddyn. Dewch o hyd i glybiau golff yn eich ardal chi a chyflwynwch eich busnes iddyn nhw: boed yn lle i aros neu’n rhywbeth arall i golffwyr ei wneud tra ar eu gwyliau golff.*

Chwilota am fwyd yn gynaliadwy ar deithiau cerdded drwy’r flwyddyn.
*Mae grŵp crwydro yn cynnal sesiynau arbennig i addysgu cyfranogwyr ynghylch pa blanhigion sydd yn niferus ac yn fwytadwy, fel y gallant chwilota am fwyd yn gynaliadwy ar deithiau cerdded yn y dyfodol.*

Cadwch eich trefniadau’n hyblyg er mwyn i chi allu ymateb i’r tywydd.
*Mae gweithredwr teithiau o Abertawe yn mynd â’i ymwelwyr ar dripiau undydd i Benrhyn Gŵyr neu Barc Coedwig Afan ar ddiwrnodau heulog ac i Ogofâu Dan yr Ogof neu Fragdy Penderyn ar ddiwrnodau glawog.*

## Bwyd a diod.

Defnyddiwch gynhwysion tymhorol ym mhrif eitemau eich bwydlenni er mwyn y blas, cost a chynaliadwyedd.
*Mae tafarn yn cylchdroi’r tatws y mae’n eu defnyddio mewn cinio dydd Sul, gyda thatws newydd Sir Benfro â mint yn yr haf a thatws Rudolph rhost yn y gaeaf.*

Cynigiwch brydau arbennig sy’n adlewyrchu’r tymhorau.
*Mae caffi hufen iâ yn creu cyffug euraidd wedi’i ysbrydoli gan y traeth a syndi halen môr ar gyfer yr haf a brechdan hufen iâ malws melys wedi’i thostio ar gyfer yr hydref.*

Ychwanegwch olion o’r awyr agored i mewn i’ch mannau bwyta gyda steilio cyfnewidiol.
*Mae siop goffi yn rhoi fâs fach o flodau neu ddail tymhorol ar bob bwrdd — beth am gennin Pedr ym mis Mawrth a sbrigau celyn ym mis Rhagfyr.*

*Am fwy o wybodaeth ar gyflwyno bwyd tymhorol o safon a chynhwysion lleol ewch i llyw.cymru/bwydadiodcymru*

Gweithgarwch drwy gydol y flwyddyn — gallwch deimlo'n dda mewn unrhyw dymor:

**Treftadaeth ac atyniadau.**

**Ailddyfeisiwch eich arlwy drwy ddefnyddio eich gofod ffisegol yn wahanol bob tymor.**
*Mae gweithredwr trenau stêm yn rhedeg trenau Nadolig i weithdy Siôn Corn (caban gyda choblynnod, mins peis a gwin cynnes) a threnau Pasg i Dŷ'r Gwningen (yr un caban wedi'i addurno'n wahanol, gyda helfa wyau i blant).*

**Dewch â hanes a'r tymhorau ynghyd drwy ystyried yr hyn a wnaeth ein cyndeidiau.**
*Mae amgueddfa Rufeinig yn defnyddio ei sesiynau adrodd stori i rannu cymariaethau tymhorol rhwng yr oesoedd, megis sut y dathlai milwyr 2000 mlynedd yn ôl y Satwrnalia yn lle'r Nadolig.*

**Cynhaliwch deithiau sy'n cynnwys bod yn yr awyr agored.**
*Mae castell gyda thiroedd yn rhoi teithiau machlud ym mis Mawrth a theithiau wedi'u goleuo gan ffaglau ym mis Tachwedd*

**Defnyddiwch wyliau ysgol fel cyfle i arbrofi gyda digwyddiadau tymhorol.**
*Mae oriel gelf yn cynnal sesiynau crefft creadigol a theithiau addas i blant dros hanner tymor a gwyliau'r haf, gan ganolbwyntio ar ei darnau celf sy'n ymwneud â'r tymor presennol.*

**Defnyddio'r Gymraeg gyda'ch ymwelwyr.**
*Defnyddiwch eiriau Cymraeg i ymwelwyr eu dysgu sy'n berthnasol i'ch business neu'r tymor.*

**Llety.**

**Meddyliwch am dymheredd ystafelloedd gwesteion.**
*Mae gwesty teulu yn ychwanegu ffaniau oeri-cyflym a dŵr wedi'i rewi at ystafelloedd gwely yn ystod misoedd cynnes ac yn rhoi blancedi gwlân Cymreig a photeli dŵr poeth ar y gwelyau mewn misoedd oerach.*

**Gweddwch eich brecwast i'r tymor.**
*Mae llety gwely a brecwast yn gweini iogwrt gyda ffrwythau'r haf a granola yn y gwanwyn a'r haf ac yna'n ei newid am uwd â sbeis sinamon gydag aeron yn yr hydref a'r gaeaf.*

**Defnyddiwch liwiau'r tymhorau mewn ategolion y gellir eu newid.**
*Mae gwesty bwtîc yn addurno ystafelloedd gyda fasau ac addurniadau mewn lliwiau sydd wedi eu hysbrydoli gan natur — arlliwiau pastel yn y gwanwyn, lliwiau llachar mentrus yn yr haf, coch yn yr hydref ac arlliwiau dwfn yn y gaeaf.*

**Gwnewch awgrymiadau gweithgareddau tymhorol ar hysbysfwrdd.**
*Mae pentref gwyliau yn Sir Benfro yn defnyddio arddangosfa cydgyfnewidiol i argymell y traethau, y llwybrau cerdded a'r mannau gorau i ymweld â hwy bob pythefnos.*

*Am gefnogaeth ar gyflwyno Cymraeg yn eich busnes, ewch i llyw.cymru/cymraeg*

*Os oes angen cymorth cyfieithu, yna siaradwch â Helo Blod sydd yn gallu darparu hyd at 500 o eiriau o gyfieithu (pob mis) am eich busnes. llyw.cymru/heloblod*



Rhaeaðr Cynfal, Blaenau Ffestiniog



Mae gan Gymru lawer o ardaloedd lle mae'r awyr yn wirioneddol dywyll. Maent yn eithaf prin ar draws y byd oherwydd llygredd golau, sydd hyd yn oed yn fwy o reswm i ni eu trysori. Mae ein hardaloedd awyr dywyll yn drysor go iawn. Yma, rydym yn cynnig rhywfaint o wybodaeth a chyngor ar yr hyn ydynt a sut y gallwch eu gwneud yn rhan o'ch busnes.

# Yr awyr agored yn y nos.

**Beth yw 'awyr dywyll'?**
Mae'r cysyniad o 'awyr dywyll' yn oddrychol iawn. Er enghraifft, i rywun sy'n byw mewn dinas, byddai awyr y nos mewn lleoliad lled-wledig yn llawer tywyllach nag un yn y ddinas. Fodd bynnag, gwir ddiffiniad awyr dywyll yw un sy'n rhydd o unrhyw lygredd golau artiffisial.

**Pa ardaloedd awyr dywyll sydd gennym yng Nghymru?**
Mae sawl ardal warchodedig yng Nghymru. Mae Parc Cenedlaethol Eryri a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn Safleoedd Darganfod Awyr Dywyll, dim ond 16 ohonynt sydd yn y byd, ac mae Cwm Elan ym Mharc Awyr Dywyll. Hefyd, mae ardaloedd arbennig yn cael eu cydnabod am dywyllwch, megis y Safleoedd Darganfod Awyr Dywyll sydd i'w cael ledled Cymru, gan gynnwys mewn ardaloedd lled-wledig.

**Pam mae ardaloedd awyr dywyll yn bwysig i Gymru?**
Anaml iawn y gwelir y Llwybr Llaethog gan bobl sy'n byw mewn lleoliadau trefol a lled-wledig, felly mae ardaloedd awyr dywyll a warchodir yn cynnig rhywbeth gwahanol iddynt. Maent yn ei gwneud yn bosibl i'r Llwybr Llaethog, Galaeth Andromeda a gwrthrychau eraill dirifedi gael eu gweld yn hawdd gyda chanllaw ar ble i'w gweld. Ceir effaith economaidd gymdeithasol sylweddol oherwydd ardaloedd awyr dywyll, gydag astro-dwristiaeth yn tyfu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf wrth i bobl chwilio am brofiadau a chyfleoedd i ddarganfod eu lle yn y byd.

Hay Bluff, Y Gelli Gandryll

# Holi ac Ateb:
# Allan Trow
# Awyr Dywyll Cymru

Mae sylfaenydd Awyr Dywyll Cymru yn dweud wrthym am effaith a gwerth ardaloedd awyr dywyll ar gyfer ei fusnes ac mewn mannau eraill yn y diwydiant twristiaeth.



**Pryd a pham y cychwynnoch chi Awyr Dywyll Cymru?**

Yn 2010, roeddwn i'n gweithio fel darlithydd ym Mhrifysgol Morgannwg (Prifysgol De Cymru erbyn hyn). Roeddwn i'n aml yn derbyn ceisiadau i fynd â phobl i ardaloedd tywyll Cymru i ddangos rhyfeddodau ein bydysawd iddynt. Ers y dyddiau cynnar hynny o fynd â llond llaw o bobl i wylltiroedd Cymru ar benwythnosau, mae gen i fy musnes fy hun bellach lle'r ydym yn treulio'r wythnos gyfan yn cyflwyno gweithgareddau ymhell ac agos o dan awyr wych Cymru.

**Sut hwyl ydych chi'n ei chael gydag Awyr Dywyll Cymru?**

Mae'r busnes yn mynd o nerth i nerth. Mae twf sylweddol wedi bod mewn diddordeb dros y 5 mlynedd diwethaf. Ar gyfartaledd, rydym wedi cael cynnydd o 35 y cant mewn trosiant flwyddyn ar ôl blwyddyn, gyda thua 15,000 o unigolion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â seryddiaeth. Mae'r rhain wedi cynnwys syllu ar y sêr yn yr ystyr arferol i sgyrsiau seryddol ac ymweliadau â phlanetaria.

Bydd 2020 yn flwyddyn brysur arall. Mae gennym lyfr archebion llawn gwesteion i'w diddanu a'u haddysgu. Rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a'r Gymdeithas Awyr Dywyll Ryngwladol i ennill y statws Cenedl Awyr Dywyll cyntaf i'n gwlad.

**A oes gennych unrhyw gynlluniau i ehangu ar yr hyn yr ydych chi'n ei gynnig?**

Oes — ymhlith y cynlluniau mae creu canolfan bwrpasol yng Nghanolbarth Cymru. Byddai'n ein galluogi ni i fanteisio ar y diddordeb mawr yn ein busnes a darparu cyfleoedd cyflogaeth ychwanegol. Mae ystadegau'n dangos bod angen canolfan arnom sy'n caniatáu i ni ddarparu llety. Mae tua 75 y cant o werthiannau uniongyrchol o'n gwefan a 92 y cant o werthiannau drwy ein partneriaid manwerthu profiad ar-lein gan ymwelwyr y tu allan i Gymru, gyda'r rhan fwyaf yn gofyn am aros dros nos.

**Pam ydych chi'n meddwl bod pobl wrth eu boddau yn syllu ar y sêr?**

Mae yna filiwn o resymau pam mae pobl yn mwynhau awyr y nos. Mae colli ardaloedd awyr dywyll ar draws y wlad yn cuddio rhyfeddodau'r bydysawd, sy'n gwneud i bobl eisiau darganfod mwy. Am y rheswm hwn maent yn ymweld â ni ac awyr dywyll Cymru. Mae pobl yn fwy ymwybodol o'r amgylchedd o'u cwmpas drwy raglenni teledu a'r newyddion, sydd yn ei dro yn arwain at ymdeimlad o ryfeddod ac yn ysbrydoli pobl i archebu profiadau addysgol.

**Pa gyngor fyddech chi'n ei roi i fusnesau sydd eisiau cynnwys syllu ar y sêr fel rhan o'u harlwy?**

Bydd pethau bach yn eich helpu i fod yn ymwybodol o'r awyr dywyll. Gwnewch yn siŵr bod yr holl oleuo allanol yn cael ei gadw at y lefel leiaf posibl. Sicrhewch fod y gwesteion yn gwybod y gallant ddychwelyd yn hwyr neu ar ôl iddi dywyllu. Cynigiwch ddiod boeth i'r gwesteion fynd gyda nhw. Rhowch rywfaint o ddeunydd darllen seryddol syml ac am ddim o gwmpas eich canolfan (mae digon o ddeunydd ar y we). Os ydych am fynd ychydig ymhellach, prynwch finocwlars syml 10×50, a fyddai'n haws i'w gweithio na thelesgop.

**Ble mae eich hoff fan yng Nghymru i syllu ar y sêr?**

Mae cymaint ohonynt! Mae Cymru wedi'i bendithio ag awyr wych, boed hynny yn y dydd neu'r nos. Er hynny, rwy'n hoff iawn o'r Canolbarth. Mae ganddo gymaint o leoedd tywyll hawdd eu cyrraedd i chi oedi ynddynt ac edrych i fyny.



Yr awyr agored yn y nos:

## Sut gall eich busnes wneud y gorau o nosweithiau yn yr awyr agored yng Nghymru.

**Os ydych yn rhedeg llety mewn ardal o lygredd golau isel, AHNE neu Safle Darganfod Awyr Dywyll, mae gennych sioe theatraidd rad ac am ddim yn digwydd yn yr awyr uwch eich pen chi y rhan fwyaf o nosweithiau.**
Gwnewch y gorau o'r fraint hon drwy roi mynediad i delesgopau, mapiau sêr neu wybodaeth i'ch cwsmeriaid am yr hyn y gallent ei weld gyda'r llygad noeth. Gallech gael digwyddiadau ychwanegol â thema i'ch pecynnau llety hefyd, fel sesiynau syllu ar y sêr gyda phobl frwdfrydig, leol neu ddosbarthiadau gwylio â binocwlars neu delesgop dan arweiniad.

**Cynhaliwch weithdai gweithgareddau yn ystod y nos i annog pobl i ymgysylltu â'ch busnes ar ôl oriau agor arferol.**
Er enghraifft, os ydych chi'n rhedeg caffi, gallech aros ar agor yn hwyr unwaith y mis drwy'r tymhorau oerach a chynnal nosweithiau sy'n cynnwys taith gerdded aeafol dan arweiniad neu grwydr natur gyda'r nos ac yna fwyd i'ch cynhesu. Mae'n ffordd wych o ymgysylltu â'r amgylchedd a'r gymuned leol, a bydd yn codi proffil eich sefydliad.

**Rhannwch ddirgelwch a hud y misoedd tywyllach.**
Os ydych chi'n rhedeg llety a chanddo diroedd, gallech chi roi tortshys i ymwelwyr neu oleuo'r llwybrau er mwyn iddyn nhw allu darganfod rhyfeddodau'r awyr agored ar ôl oriau cau. Pan fydd y tymheredd yn gostwng, gallech gael cynheswyr dwylo, hetiau a photeli dŵr poeth wrth gefn i westeion eu benthyg. Neu, os oes gan eich adeilad naws hanesyddol neu dreftadaethol, gallech gynnal nosweithiau straeon arswydus, teithiau cerdded ysbrydion neu ddigwyddiadau Calan Gaeaf.

Y Good Life Experience, Hawarden

# Cyfweliad:
# Elizabeth Daniel
## Bythynnoð Gwyliau Bannau Brycheiniog

Weði ei benðithio gyða Pharc Ceneðlaethol harðð a Gwarchoðfa Awyr Dywyll, mae Bythynnoð Gwyliau Bannau Brycheiniog weði ymgorffori'r nos yn ei arlwy. Mae Elizabeth Daniel, sylfaenyðð y busnes, yn rhannu rhai enghreifftiau o sut maent yn ðefnyððio manteision yr arðal i ychwanegu gwerth ac annog ymwelwyr i fanteisio ar yr awyr agoreð yn y nos.

Mae rhywbeth am fod wrth ymyl dŵr sy'n gwneud i chi deimlo'n agosach at natur. Mae Melin Buckland ar lannau un o ddarnau mwyaf prydferth afon Wysg, yn agos at Langynidr, felly mae gwesteion yn mwynhau pysgota ar hyd y 200m o lan yr afon. Er mwyn eu cadw i deimlo'n agos at natur gyda'r nos, mae gennym stof llosgi coed yn yr ystafell fyw fel y gallant gynhesu bysedd eu traed wrth wylio'r afon o gadair esmwyth.

Mae ein lleoliadau fferm bob amser yn boblogaidd gyda theuluoedd gan eu bod yn caniatáu i blant fyw yn agos at fywyd gwledig. Mae Ysgubor a Stablau Rhianydd yn llawn pethau sy'n golygu y gall oedolion gael hwyl, hefyd. Mae'r twba twym yn atyniad mawr gyda'r hwyr; mae pobl wrth eu boddau yn teimlo'r dŵr cynnes o'u hamgylch pan fydd brath ar yr awel.

Mae Talybont ar Wysg yn ganolbwynt i'r rhai sy'n frwdfrydig dros yr awyr agored, gyda llwybrau'r Bannau, cronfa ddŵr, rhaeadrau, camlas a digonedd o dafarndai. Yn ddiweddar, rhoddwyd Gwobr Glampio Seren AUR gan Croeso Cymru i letyau Glampio Gilestone. Maent wedi'u haddurno'n hardd ac yn llawn cyfarpar; mae gan bob un dwba twym preifat, stof llosgi coed a phydew tân i'ch cynhesu ac i annog amser ymlacio yn yr awyr agored.

Yn Pond Cottage, yn agos i'r Gelli Gandryll, mae gennym arsyllfa breifat sy'n cynnig yr amodau gorau posibl er mwyn syllu ar y sêr. Mae ganddo Gwt Bugail bach hefyd gyda stof llosgi coed, sy'n ddelfrydol ar gyfer picnic ym mhob tymor gan edrych dros ddôl gydag ieir ac alpacas.



Parc Ceneðlaethol Bannau Brycheiniog




# Mwynhau'r awyr agoreð.

Defnyððio'r awyr agoreð i greu naws am le.

Penðeryn, Bannau Brycheiniog

Gall yr hyn sy'n cyfrannu at naws am le foð yn ððiðerfyn. Dyma'r teimlað a gewch wrth ymwelð â rhywle am y tro cyntaf — yr argraff gyntaf, yr olwg, y teimlað, yr awyrgylch, y bobl. Mae naws am le yn croesawu'r golygfeyðð, y synau a'r profiaðau unigryw syðð weði eu gwreiððio mewn gwlað, y rhinweððau unigryw a chofiaðwy hynny sy'n atseinio gyða phobl leol ac ymwelwyr fel ei gilyðð.

Mae ymwelwyr â Chymru wrth eu boððau'n ðarganfoð sut beth yw boð yn Gymry a beth sy'n gwneuð Cymru'n wahanol ac yn arbennig. Mewn geiriau eraill, maent yn eiððgar i brofi ei naws am le. Gallwch wella naws am le eich busnes ðrwy groesawu Cymreictoð a'r iaith Gymraeg, gan ððatblygu eich gwyboðaeth o'ch arðal a'i hyrwyððo'n effeithiol i'ch ymwelwyr.

*Am fwy o wybodaeth ar sut i gyflwyno naws am le yn eich busnes: businesswales.gov.wales/tourism/cy/dolenni-defnyddiol*

# Cyfweliad: Nancy Durham FARMERS' Welsh Lavender Cyf

Mae naws am le yn bwysig iawn i FARMERS' Welsh Lavender Cyf, cwmni sy'n tyfu lafant ac yn cynhyrchu cynhyrchion gofal y corff yn Llanfair-ym-Muallt.



Doedd Cymru ddim yn adnabyddus am ei lafant tan i'r fferm hon ddechrau yn 2003; roedd y perchnogion, Bill Newton-Smith a Nancy Durham newydd brynu chwe erw o dir o amgylch eu ffermdy ac yn meddwl beth arall allai ffynnu ar y ddaear ar wahân i ddefaid. Mae'r cwmni bellach yn cynhyrchu cynhyrchion lafant ar gyfer cwsmeriaid dros y byd ac mae ganddo gannoedd o ymwelwyr bob blwyddyn sydd eisiau profi darn o dirwedd Cymru.

Mae gwir naws am le yn ein fferm lafant. Rydym wedi ein lleoli ar uchder o 1100 o droedfeddi, ac wedi ein hamgylchynu gan olygfeydd hardd. Pan mae ymwelwyr yn gweld y fferm a'i golygfeydd, maen nhw'n gegrwth! Mae'n olygfa wych, gyda'n llechwedd o lafant yn ymestyn ar draws yr hen fferm ddefaid. Mae Gorffennaf ac Awst yn arbennig o drawiadol gan fod y lafant yn ei liw glas cyfoethocaf, ond rydym yn agored ac yn cynhyrchu pethau drwy gydol y flwyddyn. Mae ein hadeiladau fferm ar ben y bryn yn cael eu defnyddio ar gyfer digwyddiadau arbennig a marchnadoedd tymhorol hefyd; mae pobl wrth eu boddau â'r lleoliad.

Cyn i ni ddechrau'n menter, nid oedd y llywodraeth yn cydnabod bod lafant yn gnwd amaethyddol yng Nghymru. Plannwyd ein cnwd cyntaf o lafant yn 2003 gan ddefnyddio grant gan yr UE a Llywodraeth Cymru a oedd yn cefnogi ffermwyr a oedd eisiau dilyn trywyddau newydd. Yr ydym bob amser yn ceisio gweithio gyda'r amgylchedd yma. Er enghraifft, pan fyddwn yn plannu lafant newydd rydym yn ychwanegu graean a thywod i wella draenio gan fod ein pridd trwm yn rhy gyfoethog ar gyfer lafant.

Rydym yn cynnal ymweliadau grŵp wedi'u harchebu o flaen llaw ar gyfer lleiafswm o ddeg o bobl. Mae teithiau'n para tua 90 munud. Rydym yn arwain pobl o amgylch y caeau lafant, y ddistyllfa, y pwll (lle mae pobl weithiau'n hoffi mynd i nofio'n wyllt) ac yna'n gweini coffi, te a theisennau lafant yn ein caffi anffurfiol.

Fel arall, gall pobl ymweld fel unigolion neu grwpiau llai a chymryd taith hunan-dywysedig am ddim o bopeth gan ddefnyddio ein nodiadau fferm. Rydym bellach yn cynnig llety dros nos hefyd, ar ffurf tryc clyd sydd wedi'i uwchgylchu a'i adnewyddu. Beth bynnag fo'r dewis, gall ymwelwyr ddod i fwynhau arogleuon a golygfeydd hyfryd ein rhan ni o Gymru.

Yn ein siop anrhegion, mae gennym amrywiaeth o'n cynhyrchion lafant i bobl gael eu profi, gan gynnwys siocled a hufenau ar gyfer gofal y corff. Caiff y rhan fwyaf eu cynhyrchu yng Ngogledd Cymru gan ein partner Helen Lowe. Mae hi'n anfon cynnyrch atom ni ac rydym yn llenwi, labelu ac yn anfon o'n safle i siopau o gwmpas y DU a rhai tramor. Rydym newydd agor yn y siop Monocle ym Maes Awyr Rhyngwladol Hong Kong. Mae'n rhoi cyfle i ymwelwyr brynu rhywbeth er mwyn cofio'r lle a mynd â'u profiadau adref gyda nhw.

Rydyn ni'n cael ein hysbrydoli'n wirioneddol gan y ffermwyr a welwn yn agos atom sy'n gweithio bob awr o'r dydd. Maent yn ein sbarduno i barhau drwy gofleidio'r dirwedd a bywyd yr awyr agored. Mae cael naws am le sydd mor gryf ac agor ein busnes amaethyddol i ymwelwyr yn helpu i sicrhau bod traddodiadau ffermio a gwerthfawrogiad o dirwedd Cymru yn parhau i ffynnu.

Mae awyr agored Cymru yn lle y gall pawb ei fwynhau, waeth beth yw galluoedd pob unigolyn. Gall yr awyr agored ei hun fod yn heriol o ran mynediad, ond gydag ychydig o feddwl ac ystyriaeth ofalus gall eich busnes helpu pawb — a phob corff — i fwynhau ein tir prydferth.



# Galluogi hygyrchedd yn yr awyr agored.

Ynys y Barri

Sut i wneud yr awyr agored yn fwy hygyrch.
*Ysgrifennwyd gyda help gan aelodau Anabledd Cymru.*

**Meddwl: pawb yn yr awyr agored.**
Pan fyddwch chi'n cynllunio rhywbeth yn yr awyr agored, cofiwch ei wneud yn hygyrch i bobl anabl. Os ydych chi'n defnyddio tabl neu siart i gynllunio'r gweithgareddau neu'r ardaloedd, ychwanegwch golofn ar gyfer unrhyw ystyriaethau y bydd angen i chi eu gwneud er mwyn cadw popeth yn hygyrch. Mae cwsmeriaid sy'n hapus gyda'r profiad yn fwy tebygol o'ch argymell chi i bobl eraill.

**Llogi a hyfforddi ar gyfer gweithgareddau arbenigol.**
Eich staff yw wyneb eich busnes, ond y nhw hefyd yw man galw cyntaf eich cwsmeriaid pan fydd angen rhywbeth arnynt. Os ydych chi'n rhedeg gweithgaredd yn yr awyr agored, fel dringo creigiau, llogwch staff arbenigol sydd wedi arfer â chynnal y gweithgaredd gyda phobl anabl naill ai i helpu yn y digwyddiad neu i hyfforddi eich staff presennol.

**Creu dulliau cyfathrebu sydd o gymorth.**
Mae sawl ffordd o gyfleu gwybodaeth yn yr awyr agored. Meddyliwch am sut y gallwch fodloni gofynion pobl anabl drwy ddefnyddio pethau fel print bras, testun sy'n hawdd ei ddeall, Braille a sain lle byddech fel arall yn defnyddio arwyddion safonol. Rhowch arwyddion clir ar lwybrau ac ardaloedd tywyll a golau a gosodwch arwyddbyst mewn mannau pwysig fel y gall pawb ddod o hyd i'w ffordd wrth fforio y tu allan.

**Mynd yr ail filltir.**
Ystyriwch y pethau bach y gallwch eu gwneud er mwyn ysgafnhau'r straen ar bobl anabl a'u gofalwyr. Er enghraifft, gallech chi gael ychydig o gadeiriau olwyn ar gyfer pob math o dir y gall pobl anabl eu benthyg tra byddan nhw gyda chi neu osod cymaint o feinciau neu fannau eistedd ag y gallwch chi ar hyd llwybrau heb ddifetha'r dirwedd.

*Adnoddau defnyddiol:*
*Anabledd Cymru (disabilitywales.org/?lang=cy)*
*Llywodraeth Cymru: Cydraddoldeb (llyw.cymru/cydraddoldeb)*

*Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am ddiffiniadau, iaith a therminoleg ar wefan Anabledd Cymru. Gellir dod o hyd i Reoliadau Adeiladu 2010 Rhan M yn hawdd drwy beiriannau chwilio.*

# Holi ac Ateb:
# Cleopatra Browne
## Sylfaenydd
## Celtic Quest Coasteering

Mae Celtic Quest Coasteering yn arbenigwyr antur sy'n cynnig profiadau ar arfordir Sir Benfro.

**Beth yw eich busnes chi?**
Disgrifir arforgampau yn aml fel popeth y cewch eich rhybuddio i beidio â'i wneud ar y traeth fel plentyn! Mae'n golygu symud ar hyd darn o forlin yn y man lle mae'r môr yn cwrdd â'r tir.

Wedi'u harfogi â siwt wlyb ar gyfer y gaeaf, cymorth hynofedd a helmed, caiff y rhai sy'n cymryd rhan gyfle i roi cynnig ar nofio gwyllt, môr-greigio, neidio oddi ar glogwyni, ogofa môr a throelli neu drochi'u hunain yn yr ardaloedd dŵr gwyn.

**Pwy all gymryd rhan?**
Mae pob antur wedi'i theilwra i weddu i ddisgwyliadau a galluoedd pob anturiaethwr. Mae tîm Celtic Quest yn credu y dylai antur fod yn hygyrch i bawb ar eu lefel a'u cyflymder eu hunain. Mae gan bawb ei syniad ei hun o'r hyn yw antur. I rai, cyrraedd copa Mynydd Everest yw eu lefel; i eraill, gall fod yn arnofio heb gymorth yn y môr agored. Os yw'n ymarferol bosibl, gall Celtic Quest deilwra antur ar gyfer unrhyw un.

**Pa gamau yr ydych wedi'u cymryd i ddod yn fwy hygyrch?**
Derbyniodd tîm Celtic Quest hyfforddiant ychwanegol er mwyn gallu croesawu pobl gyda phob math o anableddau. Rydym wedi gorfod meddwl am godi a chario a mynediad, hefyd. Cymerwch neidio oddi ar glogwyni, er enghraifft. Neidio yn y môr yw'r darn cymharol hawdd — nid yw cyrraedd at yr uchder addas i neidio bob amser cyn hawsed.

**Sut ydych chi'n asesu a all rhywun wneud rhywbeth?**
Mae i antur gadwyn o elfennau, megis neidio, dringo, nofio a throchi. Rydym yn edrych ar ba elfennau y gall pob cyfranogwr neu grŵp eu cyflawni, yn hytrach na chanolbwyntio ar yr hyn nad yw'n bosibl. Drwy wneud hynny, byddwn yn canolbwyntio ar yr hyn y gellir ei gyflawni, gan addasu ar hyd y ffordd a bod yn gadarnhaol.

Yn ystod yr hyfforddiant cyn i'r tymor ddechrau, mae ein tîm yn mynd allan am 'antur hygyrch anhygyrch'. Rydym yn efelychu anableddau amrywiol i roi syniad llawer cliriach i'r tywyswyr o sut i wneud eu hanturiaethau yn fwy hygyrch. Gallai hyn gynnwys neidio oddi ar glogwyn yn gwisgo mwgwd dros eich llygaid, cael eich trochi a'ch troelli yn y peiriant golchi (ymchwydd o ddŵr) heb ddefnyddio'ch coesau neu ddringo allan o'r dŵr heb ddefnyddio'ch breichiau.

**Sut mae gwella eich hygyrchedd wedi gwella eich busnes?**
Mae Celtic Quest Coasteering yn gallu gwneud i bob cyfranogwr deimlo'n anhygoel! Mae edrych yn fanwl ar 'sut' eu hanturiaethau o safbwynt hygyrchedd wedi gwella'r gwasanaeth cyffredinol i bob ymwelydd, gan gynnwys pobl nad ydynt yn anabl.

Rwy'n ymwybodol iawn o sut mae busnesau'n aml yn codi mwy ar bobl anabl na phobl nad ydynt yn anabl am gymryd rhan mewn gweithgareddau antur, ac rwy'n anghytuno â hynny. Mae ein prisiau yn safonol waeth beth yw eich oedran, rhyw neu allu. Yn aml, gall hwyluso antur i rywun sy'n anabl ofyn am ddau dywysydd neu fwy. Mae hyn yn effeithio ar elw'r busnes, ond mae yna ffyrdd y gallwn ymdopi â'r golled fach o blaid darparu profiad bythgofiadwy. Mae'r rhain yn cynnwys dod o hyd i amseroedd tawelach i gynnal y profiadau hyn.

**Pa gyngor sydd gennych i berchnogion busnesau sydd am wneud eu gweithgareddau yn fwy hygyrch?**
Edrychwch yn fanwl ar eich arlwy presennol. Sut gellir ei addasu i fod yn fwy cynhwysol? Nid oes angen iddo fod yn newid aruthrol. Yn wir, mae'n syndod sut gall y pethau bychain wneud byd o wahaniaeth. Er enghraifft, rydym yn ychwanegu strapiau fforch syml i'n cymhorthion hynofedd ar gyfer defnyddwyr anabl, sy'n cadw'r cymorth hynofedd yn ei le heb fod yn cyfyngu'n dynn. Mae cleientiaid yn ei chael hi'n haws arnofio yn y safle cyfforddus hwn, sydd yn ei dro yn golygu bod angen llai o gymorth corfforol arnynt gan dywyswyr.

Rhowch gynnig ar efelychu'r profiad, efallai. Rhowch fwgwd am eich llygaid chi neu'ch staff i weld sut beth yw'r profiad. Roedd y gweithgaredd hwn yn amhrisiadwy gan ei fod yn gadael i ni brofi pethau fel colli golwg yn rhannol neu'n llwyr yn hytrach na cheisio'i ddychmygu.

Canolbwyntiwch ar yr hyn sy'n bosibl, nid ar y cyfyngiadau y bydd rhywun yn eu hwynebu wrth geisio cymryd rhan. Gallant lithro i lawr rhywbeth, felly meddyliwch sut i'w cael i fyny i'r lle cywir. Gallant arnofio heb gymorth, felly meddyliwch sut i'w cael i'r dŵr.

Torrwch bethau yn elfennau llai gan fod hyn yn creu cyraeddiadau unigol. Mynd i mewn i siwt wlyb, cyrraedd ymyl y dŵr, mynd yn y dŵr, bod yn gyfforddus mewn dŵr gwastad, gyrru eich hun neu gael eich cynorthwyo mewn dŵr, profi lefelau o ddŵr gwyn, ceisio neidiau a llithrennau, dod wyneb yn wyneb â morlo yn y dŵr... gellid torri'r rhan fwyaf o'r rhain yn llai ymhellach. I lawer o bobl, mae'r pethau rydym yn eu cymryd yn ganiataol yn her anorchfygol, felly galluogwch iddynt goncro rhai o'r heriau hynny — neu o leiaf fod yn cael hwyl wrth geisio!



Gall agor ein mannau awyr agored i ymwelwyr arwain at ganlyniadau gwych i bawb sy'n cymryd rhan. Gallwn edrych ar ŵyl Drysau Agored Cadw am enghraifft o sut y gall agor mannau arwain at bethau da. Bob blwyddyn ym mis Medi, mae gŵyl Cadw yn gadael i filoedd o ymwelwyr gael mynediad at dros 200 o dirnodau ac atyniadau hanesyddol Cymru am ddim. Mae'n cynyddu nifer yr ymwelwyr ar safleoedd ac, yn ei dro, yn hybu elw yn y safleoedd eu hunain a busnesau cyfagos eraill.

# Bod yn rhan o'r gymuned a grwpiau awyr agored.

Castell Carreg Cennen

## Sut i weithio gyda grwpiau sy'n bodoli eisoes a datblygu eich cymuned eich hun.

**Os oes gan eich busnes fan awyr agored preifat, ystyriwch ei agor i'r cyhoedd ar gyfer digwyddiadau untro neu ei rentu i grwpiau cymunedol lleol.**
Bydd yn cynyddu eich amlygrwydd yn y gymuned leol ac yn creu sgwrs o amgylch eich busnes.

**Hyd yn oed os nad oes gan eich busnes fan awyr agored, gallech ystyried gwahodd grwpiau cymunedol awyr agored i'ch gofod dan do.**
Cynigiwch de a chyfle i ymlacio i'r cerddwyr ar ôl taith gerdded, darparwch le i glybiau gwau gael gwau a sgwrsio neu gofynnwch a yw clybiau cyfeiriannu am ddefnyddio eich lle wrth gynllunio eu teithiau cerdded. Gallai fod yn gyfle i ddangos eich lleoliad, rhoi rhywbeth cadarnhaol i'r gymuned ei gysylltu â chi a helpu i hyrwyddo'ch busnes, a gallai hyn i gyd arwain at fwy o fusnes gan yr unigolion o fewn y grŵp yn dilyn eu hymweliad.

**Os ydych yn ddigon ffodus i fod yn gweithio ger ein harfordir prydferth, cefn gwlad neu lecyn o wyrddni y mae pobl leol yn heidio iddo, gallech edrych ar sut gall eich busnes ddenu ymwelwyr y mannau awyr agored cyfagos.**
Cynyddwch nifer yr arwyddion sydd gennych o gwmpas ardaloedd ymwelwyr poblogaidd i gyfeirio pobl tuag at eich busnes neu rhowch gynnig ar ddulliau tebyg o godi ymwybyddiaeth i ddenu ymwelwyr. Os ydych wedi cofrestru fel busnes Ail-lenwi Cymru byddwch yn ymddangos ar yr Ap Ail-lenwi Cymru fel bod unrhyw sy'n chwilio am ail-lenwi eu poteli gyda dŵr yn dod o hyd i'ch busnes. Gwelwch tudalen 39 o'r canllaw hon am fwy o wybodaeth.

**Neu, os ydych chi'n rhedeg grŵp cymunedol yn yr awyr agored, meddyliwch am bwy rydych chi'n caniatáu iddynt gymryd rhan yn eich gweithgareddau.**
A yw eich grŵp ar gyfer aelodau yn unig, neu a ydych chi'n gallu caniatáu i bobl alw i mewn hefyd? Byddai ehangu eich cynulleidfa yn ei gwneud yn bosibl i ymwelwyr fwynhau manteision eich grŵp a rhoi profiad cadarnhaol iddynt i'w gofio, yn ogystal â dod ag arian ychwanegol i mewn ar sail ad-hoc yn dibynnu ar faint o bobl nad ydynt yn aelodau sy'n dod. Meddyliwch am y nifer fawr o grwpiau beicio, nofio a rhedeg ledled Cymru sy'n gwahodd ymwelwyr i ymuno â nhw.

**Ceisiwch fynd a'ch busnes allan at y gymuned.**
Gallech noddi digwyddiadau lleol, cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol fel glanhau traethau neu sesiynau codi sbwriel, rhedeg stondin yn ffair eich tref neu bentref neu fynd i gyfarfodydd busnes cymunedol.

Sylw ar:

# Grŵp y Bluetits Chill Swimmers

Isoð, mae Sian Richarðson — sylfaenyðð y grŵp nofio ðŵr agoreð "heb reolau ðiangen" — yn rhannu stori ei grŵp cymuneðol, a pha mor bwysig yw cymuneð iðði hi ac aeloðau'r grŵp. Rhwng sblasio yn y tonnau wrth wneuð ffrinðiau, maent yn cymryð hoe wrth oeði mewn busnesau lleol i gael tanwyðð ac ymlacio — rhywbeth y mae'r busnesau a'r nofwyr yn elwa ohono.



**Creu cymuned y Bluetits.**
Ar ôl cymryd rhan mewn chwaraeon cystadleuol am flynyddoedd lawer, roeddwn i wedi cael llond bol ar yr holl gyfarpar yr oedd ei angen, i bob golwg, i gyrraedd y llinell derfyn. Weithiau, doeddwn i ddim yn ffitio i mewn — roeddwn i'n cael fy ystyried yn rhy hen, yn rhy dew, yn rhy araf, yn rhy ddidaro am fy amseriadau — ond yn gyffredinol roeddwn yn mwynhau mynd â'm corff y tu hwnt i'r hyn a welwn fel terfyn ei allu.

Dechreuais i nofio mewn siwt nofio yn unig i osgoi'r pwysau o deimlo bod yn rhaid i mi gydymffurfio â rhyw safon. Yn ystod y gaeaf cyntaf o nofio yn yr awyr agored, deuai pobl mewn cotiau a sgarffiau ataf i a gofyn i mi beth ar y ddaear yr oeddwn yn ei wneud. Awgrymodd y rhan fwyaf fy mod wedi mynd yn wallgof, ond roedd rhai yn ddigon chwilfrydig i ddod i ymuno â mi. Dyna pryd y dechreuodd y Bluetits Chill Swimmers.

**Mae croeso i bawb.**
Mae'r Bluetits yn nofio mewn dŵr agored drwy gydol y flwyddyn. Mae'r rhan fwyaf ohonom yn gwisgo siwt nofio ond mae croeso i bawb wisgo beth bynnag sy'n eu gwneud yn gyfforddus yn y dŵr. Mae gennym bobl o bob cefndir, o bob lliw a llun, a chyda gwahanol alluoedd nofio. Mae pawb yn gallu cyflawni llawer mwy nag y maent yn ei feddwl; weithiau, dim ond ychydig o help ac anogaeth sydd ei angen arnynt mewn amgylchedd cyfeillgar nad yw'n eu barnu.

Does dim rhaid i chi fod yn nofiwr cryf na meddu ar y strôc berffaith. Mae gennym y dewr, y swnllyd, y swil, y gofalgar, y rhai sy'n gallu nofio marathon a'r rhai nad ydynt yn hoffi mynd allan o'u dyfnder. Pan ddaw pob un ohonom at ein gilydd i nofio, rydym yn defnyddio'r gwahanol briodoleddau hyn er budd i bawb. Nid chaiff neb ei adael ar ei ben ei hun ac nid oes neb yn barnu.

**Effaith y gymuned.**
Drwy groesawu pobl newydd i'n plith bob amser, mae'r profiad a ddaw gyda phob person yn gwneud y grwpiau'n gryfach ac yn fwy diddorol. Mae rhywun o hyd sy'n barod i'ch helpu neu wrando arnoch chi, eich annog neu eich cefnogi. Dwi'n caru sut ar ôl magu'r plwc i ddod yn Bluetit, mae llawer ohonom wedi dod o hyd i'r nerth i wneud pethau eraill yn ein bywydau oedd yn ymddangos yn frawychus ar y dechrau.

Pan fyddwn yn mynd ar drywydd traethau newydd i nofio arnynt, byddwn yn aml yn cynnwys taith gerdded ar hyd Llwybr Arfordir Cymru ac yn stopio mewn caffi neu dafarn leol. Rydym yn disgwyl yr antur, ac ni wyddom fyth yn iawn beth a welwn.

**Plymio al fresco.**
A chithau yn yr awyr agored o amgylch arfordir Sir Benfro, gallwch ryfeddu at ei harddwch drwy gydol y tymhorau wrth iddynt newid. Cyfunwch y golygfeydd ymlaciol hyn gyda'r disgwyliad o wneud rhywbeth sydd ychydig yn eithafol ac fe gewch ruthr anhygoel o adrenalin.

Rwy'n falch iawn bod cymaint o bobl wedi cymryd at nofio er mwyn ei lawenydd pur oherwydd y Bluetits, a'u bod wedi darganfod y cryfder mewnol a oedd ganddynt erioed ond eu bod yn methu cael gafael arno. Dwi'n caru sut pan fyddwn ni'n cyfarfod fel grŵp mae yna rai sy'n hoffi dim ond symud yn hamddenol yn y dŵr, rhai sy'n hapus yn nofio gyda'i gilydd a rhai sy'n hoffi cystadlu. Nid oes byth agenda ar wahân i nofio — dyna'r cyfan sydd o bwys i ni.



# Cerdded yn yr awyr agored.

Penrhyn Llŷn

Un o'r ffyrdd gorau o fynd yn agos at natur yng Nghymru yw cael gwared â'r car a mynd i fforio drwy gerdded. Nid yn unig y mae'n rhad ac am ddim, yn ecogyfeillgar ac yn dda i chi, mae cerdded hefyd yn gadael i chi gysylltu'n llawn â'r awyr agored; cerddwch yn unrhyw un o'n coedwigoedd ac fe gewch deimlad ohoni dan draed, byddwch yn arogli'r glaswellt yn yr awyr ac yn gweld ei lliwiau cyfoethog, tymhorol o'ch cwmpas.

Mae effeithiau cadarnhaol cerdded ar iechyd corfforol a meddyliol wedi'u cydnabod ers tro. P'un ai ydych chi'n mynd am dro cyflym neu daith gerdded hirach, mae'n ffordd wych o gyd-fyw â natur, rhoi eich bywyd prysur mewn persbectif, cael eich cefn atoch ac ennill rhagolwg cadarnhaol.

*Ydych chi'n rhan o Gynllun Croesawu Beicwyr a Cherddwyr Croeso Cymru? Ewch i businesswales.gov.wales/tourism/cy/ser-graddio-ansawdd neu ebostiwch quality.tourism@llyw.cymru am fwy o wybodaeth.*

## Dyma rai ffyrdd y gallwch greu argraff wych drwy helpu eich cwsmeriaid i ddarganfod Cymru drwy gerdded:

**Ymchwilio i deithiau yn yr ardal.**
Dewch o hyd i rai teithiau cerdded y gall pobl eu gwneud o ble rydych chi, ac yna rhannwch y manylion amdanyn nhw ar bapur neu ar-lein. Yn dibynnu ar eich lleoliad, gallech ystyried:

- Rhannau o Lwybr Arfordir Cymru.
- Rhannau o Lwybr Clawdd Offa, Llwybr Glyndŵr neu lwybr cerdded Ffordd Cambria.
- Llwybrau dynodedig yn ein Hardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE).
- Llwybrau sy'n dilyn afonydd o'r tarddle i'r môr, gan aros mewn amwynderau ar hyd y ffordd.
- Teithiau cerdded sy'n cysylltu mannau o ddiddordeb hanesyddol lleol.
- Llwybrau pwrpasol trwy safleoedd yr Ymddiriedolaeth Coetiroedd a gwarchodfeydd natur yr RSPB.
- Llwybrau rhanbarthol i mewn i gefn gwlad neu ar hyd camlesi.

**Gwahodd cerddwyr i mewn.**
Os hoffech weld rhagor o gerddwyr yn eich sefydliad, gallech wahodd rhai o'r grwpiau cerdded neu grwydro lleol i gynnal eu cyfarfodydd yno. Buan y gall newydd da ledaenu, felly os yw un cerddwr yn mwynhau'r profiad a gynigiwch cyn neu ar ôl taith gerdded, maen nhw'n siŵr o ddweud wrth rywun arall.




**Mynd â phobl yn nes.**
Un peth a all fod yn rhwystr wrth gerdded yw'r angen am gludiant i gyrraedd y man cychwyn neu i ddychwelyd. Helpwch eich cwsmeriaid i oresgyn y rhwystr hwn drwy dynnu sylw at wasanaethau bysiau lleol (trafnidiaeth gyhoeddus a hefyd y gwasanaethau penodol a all fod ar gael yn eich ardal e.e. Sherpa'r Wyddfa yn Eryri a llwybrau Bysiau Arfordirol yn Sir Benfro) neu darparwch y rhifau ffôn ar gyfer cwmnïau tacsi lleol dibynadwy. DS: Mae'n ddefnyddiol atgoffa gwesteion y gallai fod angen arian parod arnynt ar gyfer tacsis a cheiniogau ar gyfer mesurydd parcio; nid yw llawer o leoedd bach neu wledig yn cymryd cerdyn.

Os *yw* eich ymwelwyr yn gyrru, dylech bob amser geisio defnyddio cyfleusterau parcio a theithio lle maent yn bodoli a phwysleisio pwysigrwydd mannau parcio dynodedig, yn enwedig mewn lleoliadau poblogaidd.

**Trefnu teithiau cerdded tywysedig rheolaidd.**
Yn dibynnu ar ei leoliad, gallech ddefnyddio eich busnes fel man cyfarfod ar gyfer taith dywysedig leol. Gweithiwch gyda thywysydd lleol sy'n gallu arwain y ffordd a hysbysebu'r daith gerdded ar-lein ac yn lleol. Bydd defnyddio eich busnes fel hyn yn helpu i'w roi ar y map (yn llythrennol).

**Tynnu sylw at bethau diddorol yn eich tiroedd.**
Os oes gennych ofod awyr agored, megis gerddi neu diroedd i bobl eu darganfod, defnyddiwch arwyddbyst i wneud ymwelwyr yn ymwybodol ohono. Yna, ychwanegwch labeli neu nodiadau o gwmpas y gofod awyr agored i dynnu sylw at unrhyw nodweddion, fel mathau'r blodau yn y gwelyau, enwau'r mynyddoedd y gallwch eu gweld yn y pellter neu'r rhesymau y tu ôl i'r ffordd y gwnaethoch ddylunio'r gerddi.

**Teithiau cerdded hygyrch ar gyfer pobl anabl a theuluoedd â chadeiriau gwthio.**
Mae llawer o leoedd sy'n deithiau cerdded delfrydol i bobl â phroblemau symudedd neu gadeiriau gwthio. Mae'n dda gallu argymell teithiau cerdded hygyrch lleol i gwsmeriaid. Efallai y bydd mwy nag yr oeddech ei ddisgwyl yn wreiddiol. Ystyriwch y canlynol:

- Yn aml, mae gan Bierau a Phromenadau ardaloedd gwastad ac eang i gerdded ar eu hyd.
- Mae gan Lwybr Arfordir Cymru ddigonedd o lwybrau hawdd.
- Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru grynodeb ar-lein o goetiroedd a pharciau hygyrch.

*Methu meddwl am syniadau ar gyfer teithiau cerdded lleol? Ewch i wefan Ramblers Cymru (ramblers.org.uk/wales) neu croeso.cymru i ddod o hyd i opsiynau sy'n agos atoch chi.*

# Astudiaeth achos:
# Jo Nugent
# Rheolwr Gwerthiant a Marchnata Gwesty'r Angel yn Y Fenni

Y perl yma o'r Fenni yw Gwesty Cymraeg y Flwyddyn 2020 y Good Hotel Guide.

Rydym yn ffodus iawn bod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar garreg ein drws ni. Mae llawer o'n gwesteion yn aros gyda ni am eu bod wrth eu boddau'n treulio amser yn yr awyr agored, ac mae'n hynod bwysig i ni gynnig amrywiaeth o brofiadau sy'n galluogi ymwelwyr i fwynhau tirweddau naturiol hardd Cymru.

Mae mapiau cerdded ac awgrymiadau am lwybrau ar gael o'r dderbynfa, ac rydym yn cynnig gwasanaeth glanhau esgidiau i westeion sydd wedi bod allan yn archwilio. I'r rhai sydd â diddordeb mewn rhywbeth ychydig yn wahanol, mae'r Twizy; dyma ein car trydan ein hunain y gall gwesteion ei ddefnyddio i ddarganfod y Bannau ac ailwefru mewn amrywiaeth o bwyntiau gwefru lleol fel rhan o'r Rhwydwaith Teithio Eco lleol.

Rydym bob amser yn meddwl am becynnau newydd a phrofiadau awyr agored sy'n seiliedig ar dueddiadau twristiaeth cyfredol. Yn 2019, gwnaethom gynnig rhai pecynnau 'Blwyddyn o Ddarganfod' arbennig a gafodd ymateb gwych. Fe wnaeth ein pecynnau 'garddwr gourmet' a 'hwyl wrth chwilota' olygu ymuno gydag arbenigwyr lleol i fanteisio ar y diddordeb cynyddol mewn garddio a choginio organig.

Rydym hefyd wedi lansio pecyn 'gwylio'r dail' sy'n rhoi cyfle i westeion wylio dail yr hydref yn newid lliw. Fel rhan o'r pecyn fe wnaethom ddarparu copi o 'Escape to the Woods' gan yr awdur lleol, Rob Penn, yn ogystal â'n hargymhellion ni ein hunain ar gyfer teithiau cerdded lleol gorau'r hydref.



# Twristiaeth gyfrifol.



Zip World, Chwarel Penrhyn

Mae tirweddau ac arfordiroedd hardd yr awyr agored yn sylfaen i dwristiaeth yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod twristiaeth yng Nghymru yn dibynnu ar gyfanrwydd yr amgylchedd naturiol. Fel y cyfryw, rhaid i bob un ohonom chwarae rhan wrth ymarfer ac annog twristiaeth gyfrifol. Mae ymwelwyr yn gweithredu'n wyrdd ar faterion cynaliadwyedd; mae 45 y cant o bobl yn dweud bod cynaliadwyedd yn elfen bwysig wrth drefnu gwyliau, gan ddewis ymweld â lleoedd a chymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cael eu cynnal gan y rhai sy'n cymryd cyfrifoldeb am eu heffaith ar yr amgylchedd.[1]

Er mwyn bod yn gynaliadwy a chymryd cyfrifoldeb am ein heffaith ar ein hamgylchedd, mae angen i bob un ohonom yn y diwydiant twristiaeth ystyried ein hymdrechion o ran:

- Diwallu anghenion ac ansawdd bywyd ein cymunedau lleol.
- Gwella a pharchu ein diwylliant a'n traddodiadau lleol.
- Cyfrannu at ffyniant economaidd lleol.
- Lleihau difrod i'r amgylchedd.

[1] Arolwg Tueddiadau Defnyddwyr ABTA 2018, Arkenford

Rydym yn ymwybodol o faterion o bwys sy'n cael effaith byd-eang, megis gollyngiadau gormodol o garbon a lefelau uchel o sbwriel môr gan greu amgylcheddau aflan a llygredig. Drwy ganolbwyntio ar gynaliadwyedd lleol a chadw llygad ar y darlun byd-eang, gallwn wneud ein rhan i greu dyfodol gwell i Gymru a'r byd.

Mae busnesau sy'n ymarfer twristiaeth gynaliadwy a chyfrifol fel arfer yn elwa ar eu gweithredoedd mewn sawl ffordd. Maent yn aml yn canfod eu bod yn arbed arian, yn gwella ansawdd eu cynnyrch ac yn cynyddu eu cyfleoedd marchnata.

Er enghraifft, dychmygwch gaffi yn y Canolbarth sydd ar hyn o bryd yn archebu ei ffrwythau, llysiau, wyau, bara a llaeth o bob rhan o Ewrop. Drwy gael eu cynhwysion gan gynhyrchwyr a busnesau lleol yn lle, efallai y byddent yn gallu arbed arian y byddent fel arall yn ei wario ar gludo cynhwysion o Ewrop. Efallai gallent weini bwyd sydd yn fwy ffres a gallent gynyddu eu rhwydwaith lleol a'u hamlygrwydd.

# Pethau bach gall eich busnes ei wneud i fod yn fwy cynaliadwy

**Prynwch bethau'n lleol lle bynnag y bo modd.**
Bydd hyn yn helpu i leihau eich ôl troed carbon tra'n cefnogi'r gymuned a'r economi leol.

**Gwnewch archwiliad gwastraff.**
Edrychwch ar ba wastraff rydych yn ei gasglu fel busnes a sicrhewch eich bod yn gwybod i ble mae'n mynd (gan gynnwys unwaith y bydd wedi gadael eich safle). Ceisiwch ailgylchu cymaint ag sy'n bosibl a bod yn falch o'ch ymdrechion.

**Sicrhewch eich bod yn defnyddio ynni cynaliadwy.**
Gallwch bellach ddod o hyd i gytundebau ynni gwyrdd sy'n wirioneddol gost-effeithiol i'ch busnes. Chwiliwch ar-lein am 'ynni gwyrdd i fusnesau' neu siaradwch â'ch darparwr ynni cyfredol i weld a oes ganddynt gytundeb mwy ecogyfeillgar i'w gynnig i chi.

**Ailddefnyddiwch eitemau lle bynnag y bo modd.**
Byddwch yn greadigol gydag eitemau rydych chi'n meddwl eich bod wedi gorffen â nhw. Er enghraifft, os oes gennych bapurau di-gyfrinachol diangen, gallech eu rhwygo i wneud deunydd pacio ar gyfer eich cynhyrchion. Ystyriwch brynu dodrefn a ffitiadau sydd bron yn newydd neu wedi'u huwchgylchu.

**Anogwch a galluogwch eich cwsmeriaid i weithredu mewn modd cynaliadwy.**
Mae'n haws bod yn gyfrifol am eich effaith ar yr amgylchedd pan mae gennych y modd i wneud rhywbeth yn ei gylch, felly ceisiwch feddwl am bethau a fyddai'n helpu cwsmeriaid. Er enghraifft, os ydych yn rhedeg gwesty, gofynnwch i westeion adael sbwriel ailgylchu wrth ymyl y bin gwastraff yn eu hystafell pan fyddant yn gadael a darparu dŵr yn yr ystafell mewn poteli y gellir eu hailddefnyddio neu eu hailgylchu.

**Ymunwch â chynllun Ail-lenwi Cymru.**
Ceisiwch leihau plastigau ac annog eraill i wneud yr un peth trwy ymuno ag Ail-lenwi Cymru. Mae Cymru yn anelu at ddod yn Genedl Ail-lenwi cyntaf y byd drwy'r cynllun; drwy ychwanegu busnesau fel gorsafoedd ail-lenwi, gyda'u holl leoliadau wedi'u mapio mewn ap defnyddiol. Bydd ymuno â'r cynllun yn annog pobl i ymweld â'ch busnes pan fydd angen iddynt ail-lenwi eu poteli dŵr, a allai arwain at fwy o werthiant ac ymwybyddiaeth o frand.

**Sut mae cofrestru fy musnes a sicrhau ei fod yn ymddangos ar yr ap ail-lenwi?**
*Os ydych chi'n fusnes gyda thap sydd ar gael i'r cyhoedd, yna'r cyfan sydd angen i chi ei wneud i gymryd rhan yw lawrlwytho'r ap, mewngofnodi ac ychwanegu eich manylion at y ffurflen a rhoi eich lleoliad ar y map. Cofiwch ychwanegu llun o du allan eich busnes a pheth gwybodaeth o'r hyn sydd angen i bobl ei wneud i ail-lenwi eu poteli. Unwaith bydd eich gorsaf yn fyw, byddwch yn barod i groesawu ail-lenwyr sychedig!*

*Edrychwch ar y pecyn cymorth digidol ar gyfer popeth sydd ei angen arnoch i ymuno â'r Ail-lenwi ar-lein. O Facebook i Instagram, mae gennym ddigon o gynnwys brand i chi ei ddefnyddio ar draws eich cyfrifon cyfryngau cymdeithasol.*
*refill.org.uk/help/marketing-assets*
*refill.org.uk/refill-cymru*

*A pheidiwch ag anghofio ein tagio yn eich post a defnyddio'r hashnod #RefillRevolution #ChwyldroAilLenwi.*




*Pe byddai un o bob deg yn y DU yn ail-lenwi, byddai 340 miliwn yn llai o boteli plastig mewn cylchrediad.*

## Diogelwch yn yr awyr agored.

Gall yr awyr agored gynnig cymaint o gyfleoedd i archwilio, i gyffroi a gweithgaredd llawn cyffro, ond fel gweithredwr busnes mae arnoch gyfrifoldeb i annog diogelwch bob amser. Er hynny, nid yw hyn yn golygu tynnu'r hwyl allan o deithiau eich ymwelwyr.

Dyma rai cynghorion defnyddiol gan Mentra'nGall DU a'r RNLI ar sut i fynd ati i hyrwyddo diogelwch mewn ffordd gyfeillgar sy'n briodol i'r gynulleidfa.

**Gofynnwch i gwsmeriaid neu westeion lle maent yn meddwl mynd.**
Mae hyn yn agor y sgwrs ac yn rhoi'r cyfle i chi awgrymu eu bod yn cofio cadw'n ddiogel.

**Darparu pecynnau diwrnod 'bacha hi a bagla hi'.**
Codi ffi fechan am becyn dydd sy'n cynnwys eitemau diogelwch sy'n briodol yn dymhorol, megis eli haul, bar egni, potel ddŵr, tortsh, map o'r ardal a rhifau cyswllt mewn argyfwng.

**Dangoswch wybodaeth diogelwch.**
Diweddarwch fwrdd du bob dydd i ddangos amseroedd llanw, gwybodaeth am y tywydd, rhybuddion diogelwch ac amserau'r wawr/machlud, neu arddangoswch rai o bosteri defnyddiol Mentra'nGall DU sy'n dangos negeseuon pwysig.

**Ychwanegwch wybodaeth am ddiogelwch at eich cynnwys neu wefan.**
Os ydych chi'n hyrwyddo gweithgareddau awyr agored, rhowch linell neu ddwy am sut i gadw'n ddiogel wrth ei wneud.

**Defnyddiwch negeseuon diogelwch ar eich cyfryngau cymdeithasol.**
Er enghraifft, gallai gwesty arfordirol rannu hyn i hyrwyddo'r hyn sydd ganddo i'w gynnig ond hefyd i annog archwilio diogel:

*"Awydd archwilio ein harfordir bendigedig? Efallai yr hoffech fynd i gaiacio môr! Arhoswch gyda ni'r penwythnos hwn a gadewch i'r arbenigwyr @outdooractivitybusiness ddangos y ffordd i chi #CyffroCall".*



**Dewisiwch luniau a fideos sy'n hyrwyddo anturiaethau diogel.**
Gallwch rannu lluniau anturiaethus anhygoel; ond gwnewch yn siŵr bod y bobl dan sylw yn gyfrifol, wedi'u gwisgo'n briodol, bod ganddynt offer diogelwch, eu bod yn ystyried eu hamgylchedd ac nad ydynt ar eu pen eu hunain.

**Byddwch yn bositif a chymwynasgar i atal damweiniau heb atal hwyl.**
Gall yr awyr agored fod yn lle gwych i dreulio amser, felly cynigiwch gyngor ac atgoffwch yn gwrtais yn hytrach nag ysgogi ofn neu negatifedd.

MENTRA'N GALL DU

**Ynglŷn ag Mentra'nGall DU**
Mae Mentra'nGall DU, sy'n cyflwyno'r ymgyrch diogelwch Mentra'nGallCymru, yn ceisio lleihau nifer y digwyddiadau y gellir eu hosgoi y mae'r gwasanaethau achub a brys yn ymdrin â nhw. Mae wedi sefydlu set gynhwysfawr o negeseuon diogelwch gydag arbenigwyr o'r prif sefydliadau diogelwch a chwaraeon i'r sector awyr agored i'w hyrwyddo. Maent yn darparu'r holl wybodaeth hanfodol sydd ei hangen i bobl gael mynd allan i'r awyr agored a theimlo'n hyderus am eu diogelwch ac mae ganddynt becyn cymorth busnes defnyddiol iawn i helpu pobl i hyrwyddo'r awyr agored yn ddiogel.

Mwy o wybodaeth:
adventuresmart.uk

**Ynglŷn â'r RNLI**
Mae Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI) yn elusen gofrestredig sy'n achub bywydau ar y môr. Mae'n darparu gwasanaeth ar alwad 24 awr i ymdrin â gofynion chwilio ac achub hyd at 100 o filltiroedd morol o arfordir y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon, yn ogystal â gwasanaeth tymhorol achubwr bywyd ar y traeth. Ar hyn o bryd, mae'n rhedeg ymgyrch Parchwch y Dŵr, sy'n bodoli i addysgu pobl beth i'w wneud os ydynt yn cwympo i mewn i ddŵr — hynny yw, i frwydro yn erbyn greddf ac arnofio i fyw.

Mwy o wybodaeth:
rnli.org
respectthewater.com

O wlad gymharol fach, mae gan Gymru gymaint o fywyd gwyllt o fewn ei ffiniau. Mae tua 500 o lynnoedd, dros 1000 o byllau, bron 50 o systemau afonydd sylweddol, 870 milltir o arfordir, dros 4000km sgwâr o Barc Cenedlaethol, miliynau o greaduriaid mawr a bach a chymaint o safleoedd o ddiddordeb 'arbennig' (maent yn ffurfio tua 30 y cant o dir Cymru).

Mae'n gaffaeliad ardderchog, rhywbeth y bydd pobl yn teithio milltiroedd i'w weld, a gall ddod yn gaffaeliad i'ch busnes hefyd. Lledaenwch y gair am y bywyd gwyllt bendigedig sydd ar garreg eich drws, ei gysylltu â digwyddiadau a gynhelir gan eich busnes neu ewch i bartneriaeth gydag elusennau bywyd gwyllt cyfagos er mwyn cadw natur i ffynnu.

# Ein cydbreswylwyr.

Bywyd gwyllt Cymru.



Bae Ceredigion

## Amlygu rhai o fywyd gwyllt anhygoel Cymru.

*Canllawiau gan James Byrne, Ymddiriedolaethau Natur Cymru a Gina Gavigan, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru.*

### Barcud coch.

Mae tua 2,000 o'r adar gwych hyn yn cylchwylio'r awyr ledled Cymru, yn perfformio acrobateg anhygoel drwy gydol y flwyddyn. Gellir eu gweld ym Mhowys, naill ai'n hedfan uwchben neu mewn gwarchodfeydd natur fel yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gilfach neu ganolfannau bwydo ar Fferm Gigrin.

### Gweilch.

Mae'r adar hardd hyn yn teithio o Affrica i Gymru i fridio yng Ngwarchodfa Natur Cors Dyfi yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt ger Machynlleth a Glaslyn ger Porthmadog.

### Adar Drycin Manaw a Phalod.

Mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Ynys Sgomer a Skokholm yn Sir Benfro, yn rhyngwladol bwysig am eu nythfeydd adar môr. Mae Ynys Sgomer yn gartref i nythfa adar drycin Manaw fwyaf y byd, gyda thua 350,000 o barau bridio. Mae dros 89,000 o barau bridio yn preswylio ar ynys Skokholm. Mae gan Sgomer hefyd y nythfa fwyaf o balod yn ne Prydain.



### Dolffiniaid Trwynbwl.

Mae Cei Newydd ar Fae Ceredigion yn gartref i tua 300 o Ddolffiniaid Trwynbwl sy'n ei wneud yn un o lefydd gorau Ewrop i weld y mamaliaid morol rhyfeddol hyn. Gallwch fynd ar fordeithiau cychod bywyd gwyllt, neu eistedd ar wal yr harbwr a chadw llygad ar y tonnau. Edrychwch ar Ganolfan Bywyd Gwyllt Morol Bae Ceredigion yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt am ddigwyddiadau morol, gweithgareddau, golygfeydd a gwybodaeth am fywyd gwyllt.

### Morloi Llwyd yr Iwerydd.

Mae mis Ebrill yn amser gwych i weld Morloi Llwyd yr Iwerydd ar Ynys Sgomer yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt. Daw hyd at 200 o forloi i draeth North Haven i bwrw'u blew yn ystod y gwanwyn. Yr Hydref yw'r adeg orau i weld lloi bach forloi, yn enwedig ar warchodfeydd bywyd gwyllt Ynys Enlli, arfordir Ynys Môn, Ynys Dewi yr RSPB ac Ynysoedd Sgomer ac Ynys Sgogwm yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt.

### Môr-wenoliaid.

Mae'r lagŵn yng Ngwarchodfa Natur Cemlyn yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt yn gartref i fôr-wenoliaid bridio cyffredin a môr-wenoliaid y Gogledd. Mae ganddo un o boblogaethau nythu mwyaf y DU o'r Fôr-wennol bigddu

### Dyfrgwn.

Mae gan Gymru'r cyfleoedd gorau i wylio dyfrgwn yn Ewrop. Mae Gwarchodfa Natur Morfa Teifi yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt a Llynnoedd Bosherston yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn enwog am eu dyfrgwn. Yr adeg orau i weld dyfrgwn yn y Gilfach yw rhwng Hydref a Rhagfyr pan ddaw dyfrgwn i'r rhaeadrau i fynd ar drywydd yr eog.

### Adar hirgoes.

Mae poblogaethau adar hirgoes o bwysigrwydd rhyngwladol yn defnyddio ein haberoedd fel gorsafoedd bwydo yn y gaeaf. Y lleoedd gorau i'w gweld yw aberoedd Hafren, Dyfrdwy, Traeth Lafan a Dyfi.

### Dolydd blodau gwyllt.

Mae gan Gymru rai o'r ardaloedd mwyaf o laswelltir sy'n gyforiog o flodau. Mae miloedd o degeirianau i'w gweld ar Fferm Pentwyn yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt a Fferm Berthlwyd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

### Planhigion prin.

Mae miloedd o blanhigion prin yng Nghymru. Fe welwch fwy o rywogaethau rhedyn a'u cynghreiriaid yn ucheldir canol Gwynedd nag mewn unrhyw ardal gyfatebol yn y DU. Mae Llysiau'r-bystwn melyn, blodyn gwyllt melyn sy'n tyfu yng Nghymru yn unig, wedi'i gyfyngu i glogwyni Gŵyr, Abertawe. Mae Twyni Cynffig, sy'n rhan o'r system dwyni tywod weithredol fwyaf yn Ewrop, gyda 90 y cant o boblogaeth y DU o degeirian y fign galchog.

### Coedwigoedd glaw.

Mae gennym rai o'r enghreifftiau gorau o goetir derw Iwerydd yn Ewrop, a elwir hefyd yn goedwig dymherus. Mae'r coed hyn yn dyddio'n ôl 10,000 mlynedd ac yn gartref i blanhigion prin, adar, ystlumod a dyfrgwn. Mae enghreifftiau'n cynnwys Coedydd Derw Meirionnydd ym Mro Ffestiniog ac Ynys Hir yr RSPB ger Machynlleth.



## Hyrwyddo cadwraeth bywyd gwyllt.

Wrth hybu neu brofi bywyd gwyllt yn ei holl ogoniant, gwnewch yn siŵr eich bod hefyd yn hyrwyddo'r Cod Cefn Gwlad. Gallwch ddod o hyd i'r fersiwn llawn ar-lein, ond dyma drosolwg byr o'r pethau i'w cofio:

**Parchwch bobl eraill:**

- Ystyriwch y gymuned leol a phobl eraill sy'n mwynhau'r awyr agored.
- Gadewch gatiau ac eiddo fel yr ydych yn eu canfod.
- Dilynwch y llwybrau oni bai bod mynediad ehangach ar gael.

**Diogelwch yr amgylchedd naturiol:**

- Cadwch at reolau bioddiogelwch wrth ymweld ag Ynysoedd yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt, Sgomer a Skokholm.
- Peidiwch â gadael unrhyw olion o'ch ymweliad ac ewch â'ch sbwriel adref.
- Cadwch gŵn dan reolaeth effeithiol.

Traeth Aberporth, Aberteifi



# Neges Croeso Cymru.

'Dewch i Mewn'.

Rhoscolyn, Ynys Môn

**Mae ein cysyniad cyffredinol ar gyfer y Flwyddyn Awyr Agored yn rhoi Cymru fel gwlad sy'n cynnig croeso heb ffiniau. Rydym yn gwahodd pobl i ddod i mewn i'n gwestai; ein meysydd gwersylla; ein bythynnod. Yna, yn agor y drysau er mwyn gadael yr awyr agored ddod i mewn. Darganfod atyniadau a gweithgareddau a chorneli newydd y wlad.**

Mae defnyddio 'Dewch i Mewn' yn ein negeseuon marchnata hefyd yn rhoi posibiliadau diddiwedd i ni ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol gyda phobl yn chwilio am lety, cynhyrchion, gweithgareddau a thirweddau tra byddant yng Nghymru.

Rydyn ni'n canolbwyntio hefyd ar negeseuon sy'n annog ymweliadau drwy gydol y flwyddyn (gallwch deimlo'n dda mewn unrhyw dymor) ac i archwilio ardaloedd newydd, yn hytrach na dim ond ymweld â'r rhannau o'r wlad sy'n fwy adnabyddus, a thrwy hynny ledaenu manteision ymweliadau a chynnig awgrymiadau amgen a fydd yn ysgafnhau'r pwysau mewn lleoliadau prysur ar rai adegau o'r flwyddyn. Yn bwysig, mae angen i ni achub ar bob cyfle i helpu ymwelwyr gael gwybod sut i fwynhau'r awyr agored yn ddiogel ac yn gyfrifol.

Pan fydd pobl yma rydym am iddynt brofi ein hymdeimlad o gymuned yn ogystal â thirweddau godidog ein hawyr agored. Gall hynny fod drwy ymuno â grŵp i redeg mewn parc, nofio, cerdded neu feicio neu gymryd rhan mewn taith gerdded wedi'i threfnu neu fynychu digwyddiad.

**Rydym am i ymwelwyr 'Ddod i Mewn' i'r Gymru go iawn.**

Dyma rai enghreifftiau o'r hyn y byddwch yn ei weld yn 2020:






**Y cynnwys a'r negeseuon.**
Bydd y negeseuon yn cael eu cyfieithu i gwrdd â'n prif farchnadoedd fel y gwelir isod a bydd ein hashnod poblogaidd #GwladGwlad yn parhau.

**DU / Rhyngwladol:**
This is Wales.
Check in.

#FindYourEpic
#ThisIsWales

**Cymraeg:**
Dyma Gymru.
Dyma Groeso.

#GwladGwlad
#FyNghymru

**Almaeneg:**
Das ist Wales.
Willkommen

**Gwyddelig:**
Seo an Bhreatain Bheag.
Céad míle Failte.

Am fwy o ysbrydoliaeth dyma rai ffyrdd y gallwch chi sicrhau bod eich gwesteion yn cael croeso pleserus pan fyddan nhw'n cyrraedd eich llety. Os nad yw eich busnes yn ddarparwr llety, meddyliwch sut y gallech chi addasu'r cynghorion i weddu i'r hyn rydych chi'n ei wneud.

**Cyrraedd am y tro cyntaf.**
Mae'r pum munud cyntaf ar ôl i westai gyrraedd eich llety yn hollbwysig wrth lunio eu barn gyffredinol am y lle. Defnyddiwch hyn er mantais i chi drwy wneud yn siŵr eu bod yn cael croeso mawr. Sicrhewch fod popeth yn edrych, yn teimlo ac yn arogli'n wych mewn pryd ar gyfer yr amser derbyn gwesteion, o'r ystafelloedd gwely i'r fynedfa. Ychwanegwch botiau planhigion neu flodau tymhorol i ardaloedd cymunedol i ddod â'r tu allan i mewn ac ysgafnhau'r awyrgylch.

**Cofrestru digidol.**
Un peth pwysig yn y broses cofrestru digidol yw cael WiFi cyflym, am ddim drwy'r gwesty. Sicrhewch fod y cyfrinair yn cael ei ddiogelu i gadw pobl y tu allan i'r adeilad rhag mewngofnodi a defnyddio lled band. Dylech gynnwys eich cyfryngau cymdeithasol ar unrhyw lenyddiaeth argraffedig rydych yn ei chynhyrchu, megis bwydlenni yn yr ystafell neu ddalwyr allwedd cerdyn, yn union fel y byddech yn cynnwys enw eich busnes. Os bydd gwesteion yn rhannu lluniau o'r llety ar Instagram, Twitter neu Facebook, gallwch roi sylwadau ar y lluniau i ddiolch iddynt am eu rhannu a'u rhannu os ydynt yn hapus i chi wneud hynny.

**Cofrestru meddylgar.**
I helpu gwesteion deimlo'n gartrefol, gosodwch ystafell gymunedol dawel a chroesawgar lle gallant helpu eu hunain i de a choffi am ddim. Rhowch bapurau newydd y dydd a chwpl o gylchgronau perthnasol o gwmpas yr ystafell, yn ogystal ag unrhyw lyfrynnau sydd gennych am yr ardal leol. Gallech chwarae cerddoriaeth ymlaciol ar sŵn isel er mwyn creu ymdeimlad o lonyddwch neu osod llosgydd pren i greu cynhesrwydd.

Mae byd y cyfryngau cymdeithasol yn gyflym ac yn newid o hyd ac weithiau mae'n anodd cael y wybodaeth ddiweddaraf pan fyddwch chi'n brin o amser. Siaradwn ni ychydig am un o'r sianeli cyfryngau cymdeithasol allweddol ar gyfer twristiaeth — Instagram — ond mae cyfleoedd i fanteisio ar wybodaeth a chyngor ar bob sianel gan Cyflymu Cymru i Fusnesau.

Dilynwch sianeli cymdeithasol Croeso Cymru a rhai eich cyrchfan lleol a'ch cyd-fusnesau, gan sicrhau eich bod yn manteisio ar gyfleoedd i rannu cynnwys a lledaenu'r gair.



# Cyfryngau cymdeithasol.

Hyrwyddo eich neges i'r eithaf ar-lein.

Ynys Dewi, Sir Benfro

## Instagram ar gyfer cyrchfannau a busnesau twristiaeth.

Mae'r idiom 'cyfwerth llun a llith' yn crynhoi pam mae Instagram mor bwerus wrth lunio straeon ar gyfer brandiau. Fel llwyfan tra gweledol lle mai delweddau yw'r prif ganolbwynt, gellir ei ddefnyddio i arddangos lleoedd, cynhyrchion, anturiaethau a gweithgareddau yn gyflym i gynulleidfaoedd ledled y byd.

Mae ganddo gyfraddau ymgysylltu gwell na Facebook a Twitter, mae'n debyg oherwydd pa mor gyflym y gallwch weld a rhyngweithio â chynnwys. Drwy rannu ffotograffau, fideos a straeon, gallwch ledaenu ymwybyddiaeth o'ch brand yn syth i gwsmeriaid presennol a chwsmeriaid posibl, cysylltu â marchnadoedd targed amrywiol a chael pobl i edrych ar y pethau gwych rydych chi'n eu gwneud, yn eu creu ac yn helpu pobl i'w profi. Mae dros 70 y cant o ddefnyddwyr yn gwneud pryniannau ar ôl gweld cynhyrchion a phrofiadau ar Instagram, sy'n dangos faint y gall ddylanwadu ar arferion gwario defnyddwyr — o ran y gwrthrychau ffisegol y maent yn eu prynu a'r lleoedd y maent yn talu i ymweld â nhw. Os yw eich busnes yn anwybyddu Instagram, gallai fod yn colli'r cyfle i gael niferoedd uwch o ymwelwyr, presenoldeb ar-lein gwell, sylw posibl yn y wasg a dilynwyr newydd.

**Beth sy'n gweithio'n dda gyda chyfryngau cymdeithasol Croeso Cymru?**
Yn Croeso Cymru, rydym yn postio cynnwys gwreiddiol i'r cyfryngau cymdeithasol. Rydym hefyd yn rhannu negeseuon sy'n hyrwyddo'r gorau o Gymru mewn ffordd realistig. Yma, mae Justin Lewis o dîm marchnata digidol Croeso Cymru yn rhoi cipolwg inni ar yr hyn sy'n gweithio'n dda ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol.

**Ar Facebook a Twitter:**
Cynnwys syml a gwirioneddol sy'n tueddu i weithio orau. Mae fideos byr o bethau fel traethau, afonydd, rhaeadrau a bywyd gwyllt wedi gweithio'n dda iawn. Mae'r fideos hyn yn hawdd ac yn rhad i'w cynhyrchu. Gellir eu ffilmio ar ffonau clyfar ac yna'u golygu wrth dorri rhywfaint oddi ar y dechrau a'r diwedd. Yn gyffredinol, maent yn perfformio'n well ar y cyfrifon na fideos a olygwyd yn broffesiynol.

**Ar Instagram:**
Rydym yn canolbwyntio ar ddelweddau go iawn o Gymru. Mae'r rhain yn tueddu i fod yn negeseuon wedi'u hail-bostio gennym ni gan ffotograffwyr proffesiynol neu ffotograffwyr amatur brwd, er ein bod yn rhannu rhai delweddau o gyfrifon masnach hefyd. Dydyn ni ddim yn rhannu negeseuon sy'n lleol iawn eu natur neu bethau fel cynigion arbennig a chystadlaethau.

*Mae hyfforddiant ar y cyfryngau cymdeithasol/technoleg ddigidol a chyngor ar gyfer SMEs twristiaeth a lletygarwch ar gael am ddim ledled Cymru — dysgwch fwy ar businesswales.gov.wales/superfastbusinesswales/cy*

## Astudiaeth achos:
# Sian Tucker
# fforest

Mae Sian Tucker, cydberchennog fforest, cwmni sy'n darparu llety awyr agored yng Ngheredigion, wedi cael profiad llwyddiannus o redeg cyfrif Instagram y busnes.



"Weithiau bydd pobl yn gweld un o'n lluniau o'r ardal, er enghraifft llun wedi'i dynnu ar draeth hardd neu yn y coed gerllaw, a bydd yn dod ag atgofion hapus iddyn nhw."

Rydyn ni'n defnyddio Instagram i roi rhyw syniad i bobl beth sydd gennyn ni yn fforest ac yn y rhan hon o orllewin Cymru. Mae'r brif gynulleidfa rydyn ni'n ei thargedu ar Instagram yn mwynhau profiadau yn yr awyr agored, felly rydyn ni'n ceisio apelio atyn nhw. Rydyn ni hefyd yn ceisio dangos i bobl eraill bod fforest yn lle gwych i ddod yn agos at natur a chael popeth y byddech chi ei angen er mwyn ymlacio'n braf yn ystod eich arhosiad.

Rwy'n credu ei bod hi'n bwysig iawn ein bod ni'n defnyddio lluniau da, a'n bod ni hefyd yn ystyried sut mae'r grid cyfan yn edrych ar ein tudalen broffil. Rwy'n ceisio cadw at liwiau neu themâu penodol. Rwy'n hoffi postio llun o bell yna rhannu un agos ar ôl hynny er mwyn creu amrywiaeth er enghraifft, golwg o'r tu allan i ddechrau ac yna un o'r tu mewn.

Mae rhai pobl yn defnyddio templedi pendant i gynllunio pryd y byddan nhw'n postio ar Instagram eu busnes, ond tueddu i bostio'n fwy achlysurol fydda i. Does gen i ddim amser penodol i bostio bob diwrnod. Yn lle hynny, rwy'n ceisio postio ddau neu dri diwrnod yr wythnos ac ymgysylltu'n barhaus â dilynwyr a phobl sydd wedi tagio @fforest mewn lluniau.

Mae dilysrwydd a gonestrwydd yn bwysig iawn i ni. Rydyn ni eisiau i bobl gyrraedd fforest â syniad da o sut mae'n edrych a sut y gallai deimlo. Rwy'n ceisio amrywio'r lluniau er mwyn rhoi argraff gyflawn. Ar gyfer y llety, rwy'n tynnu lluniau o bethau fel y manylion ar fasys blodau, gwead naturiol y dodrefn pren a'r blancedi cynnes i swatio oddi tanyn nhw.

O ran yr ystafelloedd cyffredin, rwy'n hoffi dangos sut mae pobl yn ymgynnull i gael diod o flaen y tân a rhannu storïau yn ein tafarn fach, sut mae pobl yn defnyddio ein hysguboriau gwledda ar gyfer digwyddiadau ac, wrth gwrs, yr awyr agored yn ei holl ogoniant.

Rwy'n ceisio cael capsiynau ffeithiol a syml — disgrifio heb fod yn emosiynol a mynegi barn. Rwy i eisiau i bobl weld y lluniau a phrofi fforest, yna penderfynu drostyn eu hunain sut mae'n gwneud iddyn nhw deimlo. Dw i ddim yn rhannu lluniau personol ychwaith, oherwydd dw i ddim yn credu y dylen ni ddefnyddio ein cyfrif busnes i wneud hynny. Ymhlith yr hashnodau rwy'n eu defnyddio'n aml mae #fforest, #visitwales a #stayplaydream.

Mae cymuned yn bwysig i ni. Rwy'n hoffi rhannu lluniau sy'n cael eu tynnu gan westeion, yn rhannol oherwydd ein bod ni'n hoffi'r gwahanol safbwyntiau maen nhw'n eu rhoi, ac oherwydd ein bod eisiau iddyn nhw wybod ein bod ni'n ddiolchgar iddyn nhw am ddod aton ni ac am eu cwmni. Yn yr un modd, rydyn ni'n rhannu lluniau o bethau yn yr ardal i ddangos yr hwyl sydd i'w gael, a beth sydd i'w weld, ei wneud a'i fwyta yn yr ardal.

Weithiau bydd pobl yn gweld un o'n lluniau o'r ardal, er enghraifft llun wedi'i dynnu ar draeth hardd neu yn y coed gerllaw, a bydd yn dod ag atgofion hapus iddyn nhw. Mae'n braf gallu gwneud hynny, ac o safbwynt y busnes, mae'n gallu arwain at archebion sy'n cael eu hysbrydoli gan atgofion.

Gadewch i ni weithio gyda'n gilydd i wneud Blwyddyn Awyr Agored 2020 yn wir ddathliad o Gymru; llwyddiant i ddiwydiant a phrofiad gwerth chweil i'n hymwelwyr.

**Cyfryngau cymdeithasol.**
Dilynwch, hoffwch, a phostiwch ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Croeso Cymru:
**Facebook Visit Wales**
**Instagram Croeso Cymru**
**Twitter Croeso Cymru**
**Pinterest Visit Wales**

Peidiwch ag anghofio tagio gyda'r hashnodau:
**#GwladGwlad**
**#FyNghymru**

**croeso.cymru**
I ddiweddaru eich gwybodaeth am gynnyrch a digwyddiadau ar croeso.cymru:
**croeso.cymru/cy/dewch-i-weithio-gydan-gilydd**

**Lluniau.**
Cofrestrwch gyda'r Llyfrgell Asedau digidol newydd er mwyn gweld lluniau o ansawdd uchel am ddim:
**assets.wales.com**

**E-gylchlythyr i'r diwydiant Croeso Cymru.**
Tanysgrifiwch yma:
**businesswales.gov.wales/tourism/cy**

Dilynwch gyfri diwydiant Croeso Cymru @CroesoCymruBus i gael y wybodaeth ddiweddaraf ar yr hyn sy'n digwydd yn y diwydiant yng Nghymru.

**Rhannwch eich newyddion.**
Gadewch i ni wybod am gynnyrch newydd neu ysbrydoledig, profiadau a digwyddiadau
**productnews@llyw.cymru**



# Dewch i mewn a chadwch mewn cysylltiad.

*Am fwy o wybodaeth am gynlluniau ariannu, graddio a gweithio gyda Croeso Cymru gweler tudalennau gwybodaeth y diwydiant twristiaeth: businesswales.gov.wales/tourism/cy*

Talacharn, Sir Gaerfyrddin

**croeso.cymru**

Caiff **2020: Blwyddyn Awyr Agored Cymru** ei gyhoeddi gan Croeso Cymru, is-adran Twristiaeth a Marchnata Llywodraeth Cymru.
ISBN Print: 978-1-83933-909-7
ISBN Digidol: 978-1-83933-908-0

Croeso Cymru, Llywodraeth Cymru, Canolfan QED, Y Brif Rodfa, Ystad Ddiwydiannol Trefforest, Trefforest, Pontypridd CF37 5YR.

Ffotograffiaeth: © Hawlfraint y Goron (2020) Croeso Cymru.
Dylunio: Departures®. Cynhyrchu a golygu cynnwys: Amy Pay.
WG39876 © Hawlfraint y Goron 2020, Llywodraeth Cymru OGL